## Atgyfodiad

Pa beth yw'r cynnwrf sy'n y tir
Er gwawr y bore cynnar?
Mae'r gron fu dan gŵys mor hir
Yn torri'n glir ei garchar.

Er gweithio'n ddyfal wrtho'i hun
Drwy'i furiau llwydion allan,
Ni chlywodd ungwr sŵn ei gân, –
Ni thorrodd hun yn unman.

Mae'n dyfod heddiw gyda'r myrdd
A gafodd newydd drwsiad,
Yn wyn a choch, a choch a gwyrdd
Ar ffyrdd yr atgyfodiad.

***David Jones, Gwilym Davies a Dan O. Jones***